**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Bethan Jones
Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a
Sir Ddinbych

13 Mehefin 2018

Annwyl Bethan

**Ymchwiliad i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus**

Diolch ichi am ddod i'n cyfarfod ar 7 Mehefin i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â'n hymchwiliad i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Yn y cyfarfod, fe wnaethoch gytuno i roi atebion i'r cwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Mae'r cwestiynau fel a ganlyn:

## Adnoddau a chapasiti

- Sut mae eich gwaith yn effeithio ar gapasiti sefydliadau partner i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu sefydliadau eu hunain? Beth, os o gwbl, fydd yn gorfod cael ei hepgor?
- Beth yw lefel yr ymgysylltiad gan bartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, a pha rwystrau sy'n bodoli rhag cynnal yr ymgysylltiad hwnnw?
- A oes pethau y byddech yn eu gwneud yn wahanol yn awr o ran adnoddau a chapasiti pe gwyddech ddwy flynedd yn ôl?

## Arfer da ac arloesi

- Sut rydych chi wedi bod yn gweithio'n wahanol, yn defnyddio dulliau mwy arloesol a chreadigol i ddatblygu'ch rhaglen waith?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- Ydych chi wedi ymgysylltu ac ymgynghori'n wahanol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd?
- I ba raddau rydych chi'n rhannu gwybodaeth ar draws rhanbarthau ar hyn o bryd?
- A oes prosesau a chyfleoedd i rannu arfer da ac arloesedd â byrddau gwasanaethau cyhoeddus eraill?
- A fydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni'r effaith gadarnhaol a ragwelwyd pan basiwyd y Ddeddf?
- A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cyflawni'r cynlluniau rydych chi wedi'u datblygu, yn y dyfodol?

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gofynnodd y Pwyllgor hefyd am ragor o wybodaeth am:

- y berthynas rhwng eich bwrdd gwasanaethau cyhoeddus chi a'ch Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol lleol a sefydlwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2016.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn **5 Gorffennaf** mewn pryd i lywio cam nesaf ein hymchwiliad.

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.